BMA

Cymru Wales

**Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**
Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd

25 Awst 2020

# Ymgynghoriad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol

## Ymateb BMA Cymru Wales

Mae BMA Cymru Wales yn nodi fod Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Y Senedd wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â Chymal 16 y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol sydd ar ei daith trwy Senedd y DU.

Croesawn y cyfle i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar farn ein haelodau yng Nghymru ar y mater hwn.

Nodwn fod Cymal 16 yn ceisio gwneud rheoliadau ar gyfer cronfa ddata o wybodaeth ynghylch dyfeisiau meddygol i'w sefydlu a'i rheoli gan GIG Digidol, corff nad oedd ganddo unrhyw gyfrifoldebau yng Nghymru hyd at hynny.

Bydd gweithredu model ar draws y DU yn golygu y bydd mwy o wybodaeth a data ar gael i Gymru, ac ar draws gweddill y DU, nac a fyddai'n bosib pe bai Cymru yn gofalu am ei chasgliad ei hun o wybodaeth a data.

Gan nad yw ei phoblogaeth ond ychydig dros 3 miliwn, ychydig iawn o bobl sydd yng Nghymru o gymharu â Lloegr a'i phoblogaeth o dros 50 miliwn. Byddai unrhyw ymgais gan Gymru ar ei phen ei hun i gyfrannu digon o wybodaeth am ddyfeisiau meddygol i allu darparu sampl

**Cyfarwyddwr Cenedlaethol (Cymru)/National director (Wales):**
Rachel Podolak

Cofrestrwyd yn Gwmni Cyfyngedig trwy Warant. Rhif Cofrestredig: 8848 Lloegr
Swyddfa gofrestredig: BMA House, Tavistock Square, Llundain, WC1H 9JP.
Rhestrwyd yn Undeb Llafur o dan Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur 1974.
Registered as a Company limited by Guarantee. Registered No. 8848 England.
Registered office: BMA House, Tavistock Square, London, WC1H 9JP.
Listed as a Trade Union under the Trade Union and Labour Relations Act 1974.

arwyddocaol yn cymryd llawer mwy o amser na phe bai Cymru'n cyfrannu at restr ar draws y DU.

Felly, byddai'r cynigion a gyflwynir yng Nghymal 16 y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol, pe bai'n cael cydsyniad Y Senedd, yn gwella diogelwch cleifion yng Nghymru.

Hefyd, trwy gyfrannu at, a rhannu yn y gwaith o ystyried, gwybodaeth ar draws y DU, bydd cleifion yng Nghymru yn elwa o'r data ychwanegol y gellir ei ystyried ar gyfer demograffeg cleifion allai fod yn cael eu tan-gynrychioli yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Mae BMA Cymru Wales yn credu fod rhannu arbenigedd a gwybodaeth o fewn y proffesiwn meddygol yn holbwysig os ydym am gynnal ac adeiladu ar ddiogelwch cleifion. Felly, yn ychwanegol at hyn, bydd BMA Cymru Wales yn parhau i alw am fuddsoddiad priodol mewn systemau TG cydnaws ar draws holl sectorau gofal iechyd a byrddau iechyd yng Nghymru i allu, lle'n briodol, rhannu gwybodaeth yn ddiogel er mwyn gwella diogelwch a phrofiad cleifion yn ogystal ag ysgafnhau llwyth gwaith staff gofal iechyd.